Caroline yn creu hanes trwy fod yr AS Gwyrdd cyntaf *Tudalen 4*

Ymgeisydd y Gwyrddion yn ymuno â mintai cymorth meddygol i Gaza *Tudalen 2*

Difa moch daear i barhau er gwaethaf dyfarniad llys *Tudalen 3*

Cymru Werdd

Papurnewydd Yr Blaid Werdd Dros Cymru — Gaeaf 2010

• Swyddi gwyrdd newydd • Amddiffyn gwasanaethau cyhoeddus • Cymdeithas decach

Dweud na i doriadau – nid dyna'r unig ffordd

Mae Plaid Werdd Cymru yn gyson wedi gwrthwynebu toriadau niweidiol mewn gwariant ac wedi ymgyrchu dros fuddsoddiad gan y Llywodraeth mewn swyddi newydd, isel mewn carbon, a fydd yn ysgogi adfywiad, mynd i'r afael â newid hinsawdd a thalu'r diffyg gyda chynnydd mewn refeniw o drethi. Amcangyfrifir y gellid creu 50,000 o'r swyddi hyn ledled Cymru trwy ymgymryd â rhaglen fuddsoddi o'r fath.

"Mae manteision economaidd a chymdeithasol enfawr i ddatblygu economi garbon isel."

Rhaid i ni gofio bod rhaid mynd i'r afael ag achosion newid hinsawdd a grewyd gan ddyn a chostau adnoddau yn cynyddu—dirwasgiad neu beidio. Mae manteision hyn yn cynnwys creu swyddi, talu llai am ein hynni, a gwella diogelwch ynni.

Meddai Jake Griffiths, Arweinydd Plaid Werdd Cymru: "Banciau achosodd yr argyfwng ariannol yma, nid gwasanaethau cyhoeddus, ond mae cymunedau ym mhobman yn cael eu gorfodi i dalu'r pris. Ar ben y ffaith y bydd ysgolion, ysbytai a thai yn dioddef o achos toriadau i gyllideb y Cynulliad, bydd y toriadau o £7bn i'r gyllideb les yn taro'r bobl fwyaf agored i niwed trwy gosbi pobl am fod yn ddi-waith tra ar yr un pryd mae'r llywodraeth yn taflu miliwn o bobl ar y clwt."

Bydd cymunedau yng Nghymru yn cael eu distrywio gan y toriadau i wariant cyhoeddus a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth Geidwadol/DemRhydd. Yn adolygiad gwariant George Osborne, cafodd Cymru doriadau mwy na Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, gyda chyfanswm o 7.5% o doriadau dros y 4 mlynedd nesaf.

Nid yw Cymru'n cael ei hariannu'n ddigonol yn barod oherwydd bod ganddi lefelau anghenion uwch, felly mae'r toriadau hyn yn ergyd enfawr i gymunedau Cymreig sy'n dal i frwydro i adennill tir ar ôl blynyddoedd Thatcher. Bydd pobl ifanc sy'n edrych am waith yn ei chael hi'n arbennig o anodd gan na fydd unrhyw swyddi a gollir yn y sector cyhoeddus yn cael eu llenwi.

"Banciau achosodd yr argyfwng ariannol yma, nid gwasanaethau cyhoeddus, ond mae cymunedau ym mhobman yn cael eu gorfodi i dalu'r pris."

Aeth yn ei flaen. "Mae'r awgrym gan glymblaid San Steffan y bydd torri'n ôl ar y sector cyhoeddus a'r holl wasanaethau a ddarperir rywsut yn rhyddhau'r sector preifat yn naïf, peryglus a dideimlad, gan ddangos difaterwch llwyr ynglŷn â phobl llai ffodus. Mae'r DU eisoes yn un o'r gwledydd datblygiedig mwyaf anghyfartal yn y byd – sefyllfa a fydd ddim ond yn gwaethygu gyda thoriadau mewn gwasanaethau cyhoeddus."

Hyd yn oed yn ystod y cyfnod o ffyniant economaidd, er gwaetha'r cymhellion ariannol a'r amser a dreuliwyd yn denu mewnfuddsoddwyr, dim ond ychydig o lwyddiant a gafwyd wrth ddatblygu'r sector preifat yn rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru.

"Mae manteision economaidd a chymdeithasol enfawr i ddatblygu economi garbon isel. Buddsoddi mewn swyddi newydd i ysgogi adfywiad a rhoi diwedd ar osgoi trethi—dyna'r dewis arall yn lle toriadau."

Jake Griffiths, Arweinydd Plaid Werdd Cymru ac ymgeisydd y Cynulliad, yn annerch cynhadledd y Blaid Werdd 2010.

Gwyrddion ar y ffordd at ennill eu ACau cyntaf

Gyda llwyddiant Caroline Lucas yn cael ei hethol yn AS Gwyrdd 1af eleni, byddai cynnydd bach yn y bleidlais yn ddigon i ethol Gwyrddion i'r Cynulliad fis Mai nesaf.

O dan y system bleidleisio gyfrannol mae gennych 2 bleidlais, 1 ar gyfer eich etholaeth ac 2il bleidlais ranbarthol. O dan yr 2il bleidlais byddai 7% yn ddigon i ethol Aelodau Cynulliad o'r Blaid Werdd.

Y tro diwethaf y defnyddiwyd system bleidleisio debyg yn 2009, cafodd y Gwyrddion 5.6% o'r bleidlais ledled Cymru a 6.4% yng Nghanol De Cymru, y rhanbarth sy'n cynnwys Caerdydd.

Bwriedir i'r 2il bleidlais gydbwyso annhegwch system bleidleisio San Steffan. Gan fod Llafur yn ennill y rhan fwyaf o'r seddi etholaethol, yn y rhan fwyaf o Gymru maent yn annhebygol iawn o ennill unrhyw seddi pellach ar y bleidlais ranbarthol.

Mewn 4 allan o 5 rhanbarth, methodd Llafur ennill unrhyw seddi ychwanegol y tro diwethaf, er iddynt gael bron 300,000 o bleidleisiau. Mae 2il bleidlais i Lafur yn wastraff pleidlais.

Mae'r Blaid Werdd yn ymgyrchu yn erbyn toriadau'r Torïaid/Dem Rhydd i wasanaethau cyhoeddus hanfodol. Pe bai dim ond 1 mewn 10 o bobl yn pleidleisio i'r Gwyrddion gyda'u hail bleidlais byddwn yn ethol ein Haelodau Cynulliad cyntaf, a fyddai'n defnyddio eu dylanwad i gyfyngu ar y niwed i wasanaethau cyhoeddus a achosir gan doriadau gwariant peryglus San Steffan.

Cyhoeddwyd gan John Matthews (Plaid Werdd Cymru), Saint Maur, Glancynon Terrace, Abercynon CF45 4TG. Argraffwyd gan Trinity Mirror Ltd, Cardiff Tidal Sidings, Portmanmoor Industrial Estate, Cardiff CF24 5HD ar bapur 100% ailgylchedig

elltec Solar Electricity Ltd

Connecting you to the sun since 2005

www.elltecsolar.co.uk

sales@ellecsolar.co.uk

- Photovoltaic Installation Specialists
- Commercial & Domestic Photovoltaic Engineers since 2005

APPROVED INSTALLER MCS PV ELC54011

REA RENEWABLE ENERGY ASSURANCE LISTED

01443 223366 / 07800874776

Unit 16, Cambrian Industrial Estate

Pontyclun, South Wales